WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwilio datblygiad model chwaraeon cymunedol newydd – **Chwaraeon Cymru**

Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyflwyno: Hydref 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1430A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Chwaraeon Cymru fel rhan o'r gwaith sydd i'w wneud yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb, nac o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn ei rinwedd unigol neu unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y cod ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Sian Davies a Caitlin Smith.

# Cynnwys

Mae nifer o enghreifftiau cadarnhaol o sut mae Chwaraeon Cymru wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu ei fodel chwaraeon cymunedol newydd. Mae Chwaraeon Cymru'n cydnabod bod angen adeiladu ar y gwaith hwn er mwyn ymgorffori'n llawn y ffyrdd o weithio wrth iddo gyflawni'r model newydd ledled Cymru.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Rhan Un: Canfyddiadau'r archwiliad

Mae Chwaraeon Cymru wedi datblygu'r model chwaraeon cymunedol newydd mewn ymateb i ddadansoddiad o anghenion a phwysau presennol a hirdymor, ond nid ydyw eto'n bodloni'r disgwyliad fod cyrff cyhoeddus yn cynllunio o leiaf deng mlynedd ymlaen llaw 7

Mae Chwaraeon Cymru'n ceisio atal anweithgarwch corfforol a gwella llesiant drwy gynyddu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ei arian ar gyfer chwaraeon cymunedol. Dylai Chwaraeon Cymru barhau i archwilio'r achosion sydd wrth wraidd anweithgarwch 9

Gall Chwaraeon Cymru ddangos cyswllt amlwg rhwng y 'cam', y weledigaeth ar gyfer chwaraeon yng Nghymru a'r nodau llesiant cenedlaethol, ond nid ydyw eto wedi archwilio'r cysylltiadau rhwng y 'cam' ac amcanion ei bartneriaid yn llawn 10

Mae Chwaraeon Cymru wedi dangos ymrwymiad i gydweithio wrth ddatblygu'r model chwaraeon cymunedol newydd, er bod y trefniadau ar gyfer rheoli a llywodraethu'r prosiect i gyflawni'r model yn eu camau datblygu cynnar o hyd 11

Mae Chwaraeon Cymru wedi cynnwys ystod gynhwysfawr o bartneriaid wrth ddatblygu'r model chwaraeon cymunedol newydd, ond prin yw'r cyfraniad uniongyrchol gan ddefnyddwyr gwasanaethau 13

Rhan Dau: Ymateb Chwaraeon Cymru 15

Atodiadau

Atodiad 1 – Dangosyddion cadarnhaol o'r pum ffordd o weithio 17

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Pam y cynhaliwyd yr archwiliad

1 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf), mae gofyn statudol ar Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) i archwilio cyrff cyhoeddus i asesu i ba raddau y maen nhw wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:

a. pennu eu hamcanion llesiant; a

b. cymryd camau i'w cyflawni.

2 Mae'r Ddeddf yn diffinio'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel gweithredu mewn ffordd 'sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'.

3 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad ar ei archwiliadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru flwyddyn o leiaf cyn pob etholiad y Cynulliad. Rhaid cyhoeddi pob adroddiad cyntaf o'i fath erbyn 2020, cyn etholiad y Cynulliad 2021.

4 Yn ystod 2018-19, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal archwiliadau ar draws 44 o'r cyrff y mae'r Ddeddf yn eu cynnwys i lywio ei adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol.

5 Ym mis Mai 2018, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad **'Myfyrio ar Flwyddyn Un – Sut mae cyrff cyhoeddus wedi ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**. Daeth i'r casgliad fod cyrff cyhoeddus yn cefnogi egwyddorion y Ddeddf a'u bod yn cymryd camau gweithredu i newid y ffordd maen nhw'n gweithio.

6 Wrth ddatblygu ein ffordd o fynd ati i gynnal yr archwiliadau yn ystod 2018-19, gwnaethom ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid, gan gynnwys drwy ein cynllun peilot yn ystod 2017-18. Gwnaethom hefyd weithio'n agos gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

7 Oherwydd y bu'r gwaith rhagarweiniol ym mlwyddyn un yn cynnwys ystyriaeth o sut roedd cyrff cyhoeddus wedi pennu eu hamcanion llesiant, roedd y gwaith hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar y ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn cymryd camau gweithredu i gyflawni eu hamcanion llesiant.

8 Mae canfyddiadau'r adroddiad hwn yn seiliedig ar waith maes a wnaethom yn ystod y cyfnod rhwng mis Ionawr 2019 a mis Mai 2019. Gwnaethom gynnal gweithdy cychwynnol gydag uwch-swyddogion Chwaraeon Cymru ym mis Ionawr 2019, a oedd yn archwilio sut y cymhwyswyd pob un o'r pum ffordd o weithio.

9 Gwnaethom adolygu dogfennau allweddol, gan gynnwys cynlluniau busnes, a chynnal cyfweliadau ag uwch-swyddogion Chwaraeon Cymru a chydag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Chwaraeon Anabledd Cymru, Golff Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

10 Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r canfyddiadau o'n harchwiliad o ddatblygiad model chwaraeon cymunedol newydd, sef cam y mae Chwaraeon Cymru yn ei gymryd i gyflawni ei amcanion llesiant. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi ymateb cychwynnol Chwaraeon Cymru i'n canfyddiadau.

## Yr hyn a archwiliwyd

11 Gwnaethom archwilio i ba raddau y mae Chwaraeon Cymru yn gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu model chwaraeon cymunedol newydd.

12 Mae Chwaraeon Cymru yn bwriadu newid yn sylweddol y ffordd y mae'n ariannu ac yn darparu gweithgareddau chwaraeon a chorfforol cymunedol. Ar hyn o bryd, caiff chwaraeon cymunedol eu hariannu a'u darparu drwy 22 awdurdod lleol yng Nghymru drwy raglenni, gan gynnwys y rhaglen chwaraeon 5x60 mewn ysgolion, gwersi nofio am ddim i blant dan 16 oed, y Gist Gymunedol (cyllid y Loteri) a Phobl Ifanc Egnïol.

13 Cyhoeddodd Chwaraeon Cymru **achos busnes dros newid ym maes chwaraeon cymunedol** yn 2016 a oedd yn nodi'r heriau sy'n wynebu'r ddarpariaeth o chwaraeon cymunedol a gweledigaeth ar gyfer y dyfodol. Ceir llai o adnoddau[1] gan Lywodraeth Cymru ar yr un pryd ag uchelgais uchel i gynyddu lefelau gweithgarwch, yn enwedig ymhlith hanner y boblogaeth nad yw'n ymwneud â chwaraeon.

14 Mae Chwaraeon Cymru yn symud tuag at fodel lle bydd yn comisiynu pedair Asiantaeth Chwaraeon Ranbarthol i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau a chymunedau eraill i ddarparu ac ariannu chwaraeon cymunedol.

15 Nod yr Asiantaethau Chwaraeon Rhanbarthol (a'r model chwaraeon cymunedol newydd) yw:

- sicrhau newid sylweddol mewn cyfraddau cymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgarwch corfforol;
- mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn chwaraeon, yn enwedig y rhwystrau i ferched a menywod, pobl anabl, teuluoedd incwm isel a rhai cymunedau gymryd rhan;
- rhoi'r cyfle i bawb gyflawni eu potensial mewn chwaraeon waeth beth fo'u hoedran neu gefndir neu ble maen nhw'n byw.

16 Defnyddir gogledd Cymru fel ardal beilot. Yn sgil nifer o sesiynau ymgynghori ac ymgysylltu â'r sector, gwahoddwyd partneriaid posibl i gyflwyno datganiad o ddiddordeb. Yn dilyn y cam hwn, penododd Chwaraeon Cymru Bartneriaeth

[1] Roedd cyllid chwaraeon cymunedol ledled Cymru yn £9.2 miliwn yn 2018-19 ac £8.9 miliwn yn 2019-20. Bydd yr Asiantaethau Chwaraeon Rhanbarthol hefyd yn rheoli'r cyllid loteri mewn cynllun cyffredinol cenedlaethol.

Gydweithredol Chwaraeon Gogledd Cymru fel ei bartner dewisol, sef cydweithrediad o sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol.

17 Ar ôl rhoi'r cynllun peilot ar waith yng ngogledd Cymru a'i adolygu, nod Chwaraeon Cymru yw cyflwyno'r model hwn ledled Cymru. Cynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid yng Nghwmbrân, Caerfyrddin a Chaerdydd ym mis Mehefin 2019.

18 Er mwyn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried y 'ffyrdd canlynol o weithio':

Arddangosyn 1: y 'pum ffordd o weithio'

Mae'r tabl isod yn nodi'r 'pum ffordd o weithio' fel y'u diffinnir yn nogfen **'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - Yr hanfodion'**.[2]

| Y Pum Ffordd o Weithio |
|---|
| **Hirdymor**<br>Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd. |
| **Atal**<br>Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion. |
| **Integreiddio**<br>Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. |
| **Cydweithio**<br>Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant. |
| **Cynnwys**<br>Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu. |

19 Daeth ein harchwiliad i'r casgliad canlynol: **Mae nifer o enghreifftiau cadarnhaol o sut mae Chwaraeon Cymru wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu ei fodel chwaraeon cymunedol newydd. Mae Chwaraeon Cymru yn cydnabod bod angen datblygu'r gwaith hwn er mwyn ymgorffori'n llawn y ffyrdd o weithio wrth iddo gyflwyno'r model newydd ledled Cymru.**

[2] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) – Yr hanfodion, Llywodraeth Cymru (2015)

# Adroddiad manwl

## Rhan Un: Canfyddiadau'r archwiliad

### Mae Chwaraeon Cymru wedi datblygu'r model chwaraeon cymunedol newydd mewn ymateb i ddadansoddiad o anghenion a phwysau presennol a hirdymor, ond nid ydyw eto'n bodloni'r disgwyliad fod cyrff cyhoeddus yn cynllunio o leiaf deng mlynedd ymlaen llaw

#### Yr hyn y chwiliwyd amdano

20 Gwnaethom chwilio am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth fanwl o anghenion presennol a hirdymor a'r heriau a'r cyfleoedd cysylltiedig;
- cynllunio dros gyfnod priodol o amser;
- adnoddau wedi'u dyrannu i sicrhau buddion yn yr hirdymor; a
- dulliau monitro ac adolygu priodol.

21 Cafodd ein harchwiliad ei lywio hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer yr 'hirdymor' y gwnaethom eu nodi a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[3]

#### Yr hyn a ganfuwyd

22 Nodwyd y cryfderau canlynol:

- Mae Chwaraeon Cymru wedi cysylltu'r 'cam' â'r weledigaeth gyffredinol ar gyfer chwaraeon yng Nghymru. Er enghraifft, lluniwyd y model chwaraeon cymunedol i helpu i gyflawni'r weledigaeth gyffredinol drwy ddarparu mwy o gyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn chwaraeon.
- Mae Chwaraeon Cymru wedi defnyddio amrywiaeth o dystiolaeth i gynllunio ar gyfer anghenion presennol a hirdymor ac i lywio dyluniad y model. Mae hyn wedi cynnwys:
  – Arolwg Cenedlaethol Cymru a'r Arolwg ar Chwaraeon Ysgol, sy'n rhoi gwybodaeth am anghenion presennol a thueddiadau yn y tymor byr.
  – Canllawiau'r Prif Swyddog Meddygol ar weithgarwch corfforol, sy'n rhoi syniad o angen presennol ac yn y dyfodol ac sy'n nodi maint y broblem y mae angen i Chwaraeon Cymru fynd i'r afael â hi.
  – Gwaith a wnaed gan Chwaraeon Cymru ar dueddiadau yn y dyfodol i ddeall yr angen hirdymor am chwaraeon, gweithgarwch a llesiant. Pennir yr angen hwn yn nogfen **Gweithredu Heddiw dros Yfory**

[3] Gweler Atodiad 1

**Egnïol** (2014), sy'n edrych ar ystod o dueddiadau sy'n sbarduno perthynas newidiol â chwaraeon hyd at 2026. Caiff yr anghenion a nodir yn yr adroddiad hwn eu hadlewyrchu yn natblygiad y cam – er enghraifft, mae'r adroddiad yn pwysleisio bod angen mynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn chwaraeon.

- Roedd yr achos busnes yn cydnabod bod y cyllidebau ar gyfer chwaraeon cymunedol yn lleihau a bod y 'cam' yn ymgais i fabwysiadu dull newydd a fydd yn gynaliadwy'n ariannol.
- Roedd yr achos busnes yn edrych ar y cyfnod o 2016 i 2023, sef cyfnod cynllunio saith mlynedd. Mae Chwaraeon Cymru wedi datblygu model buddsoddi (pum mlynedd) i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r prosiect. Mae Chwaraeon Cymru wedi dweud wrthym ei fod yn bosibl ehangu'r model i ddeng mlynedd yn amodol ar berfformiad boddhaol.
- Yn yr achos busnes, rhoddodd Chwaraeon Cymru weledigaeth o sut olwg a allai fod ar chwaraeon cymunedol yn y dyfodol, i helpu partneriaid posibl i ddatblygu dull hirdymor a rennir. Roedd hyn yn cynnwys symud tuag at ddull rhanbarthol o ariannu a chanolbwyntio ar ganlyniadau.
- Mae Chwaraeon Cymru (a phartneriaid yng ngogledd Cymru) wedi pwysleisio y bydd darpariaeth yn y dyfodol yn seiliedig ar asesiad o anghenion lleol a rhanbarthol ar sail tystiolaeth.

23 Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

- Mae'r gwaith ar dueddiadau'r dyfodol sy'n effeithio ar chwaraeon a gweithgarwch yn weithred ganmoladwy i ddeall anghenion hirdymor. Fodd bynnag, cwblhawyd y gwaith hwn yn 2014. Gallai'r tueddiadau hyn fod wedi newid mewn pum mlynedd, ac mae angen i Chwaraeon Cymru sicrhau bod ei ddealltwriaeth ar dueddiadau'r dyfodol yn gyfredol.
- Mae canllawiau statudol Llywodraeth Cymru ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol) yn nodi bod disgwyl i gyrff cyhoeddus edrych o leiaf ddeng mlynedd tua'r dyfodol. Mae hyn yn berthnasol oherwydd bod Chwaraeon Cymru yn bwriadu gwneud newidiadau sylweddol i gyllid chwaraeon cymunedol i'w wneud yn fwy cynaliadwy yn yr hirdymor. Mae gan Chwaraeon Cymru gynllun busnes saith mlynedd ar gyfer y model chwaraeon cymunedol newydd a model ariannu pum mlynedd (y gellir ei ymestyn i fod yn fodel deng mlynedd); dylai Chwaraeon Cymru ystyried sut y gallai ddatblygu ei gynllunio ar gyfer yr hirdymor ymhellach.

## Mae Chwaraeon Cymru yn ceisio gwella cyfranogiad mewn chwaraeon a gwella lles drwy gynyddu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd eu cyllid ar gyfer chwaraeon cymunedol. Dylai Chwaraeon Cymru barhau i ymchwilio i'r rhesymau sydd wrth wraidd pam nad yw pobl yn cymryd rhan mewn chwaraeon

### Yr hyn y chwiliwyd amdano

24 Gwnaethom chwilio am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth fanwl o'r math o broblem, a'i hunion natur, y gallai'r cam helpu ei hatal rhag digwydd neu waethygu;
- adnoddau a ddyrannwyd i sicrhau y caiff manteision ataliol eu cyflawni; a
- gwaith monitro ac adolygu i weld pa mor effeithiol yw'r cam wrth atal problemau rhag digwydd neu waethygu.

25 Cafodd ein harchwiliad ei lywio hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'atal' yr ydym wedi'u nodi a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[4]

### Yr hyn a ganfuwyd

26 Gwnaethom nodi'r cryfderau canlynol:

- Mae Chwaraeon Cymru yn cydnabod bod yn rhaid i'r arian ar gyfer chwaraeon cymunedol newid wrth i gyllid ddod yn fwyfwy heriol. Ar yr un pryd, nod Chwaraeon Cymru yw sicrhau newid sylweddol o ran y cyfraddau sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgarwch corfforol, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn chwaraeon, a galluogi pawb i gyrraedd eu potensial mewn chwaraeon.
- Mae Chwaraeon Cymru yn cydnabod bod y lefelau sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon yn amrywio a bod lefelau cyson o alw cudd nad ydynt yn cael eu bodloni.
- Mae gan Chwaraeon Cymru wybodaeth am y ffactorau sy'n effeithio ar y niferoedd sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon o'r Arolwg ar Chwaraeon Ysgol, Arolwg ar Chwaraeon a Ffyrdd o Fyw Egnïol AB, a **Gweithredu Heddiw dros Yfory Egnïol.**
- Mae cyflawni'r 'cam' yn cynnig y potensial i ddefnyddio data a thystiolaeth i ddyrannu adnoddau a rhoi gwasanaethau ar sail yr angen presennol a'r angen yn y dyfodol, yn hytrach na chlustnodi arian yn seiliedig ar gynsail hanesyddol.
- Mae'r manylebau ar gyfer cynllun peilot gogledd Cymru yn pennu nifer o ganlyniadau cyflawni sy'n ceisio atal anweithgarwch corfforol.

[4] Gweler Atodiad 1

27 Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

- Nid yw Chwaraeon Cymru yn llwyr ddeall y rhesymau sylfaenol pam nad yw rhai pobl yn cymryd rhan mewn chwaraeon. Byddai'r ddealltwriaeth hon yn rhoi sicrwydd fod arian yn cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael â phroblemau sylfaenol a bod ymyriadau'n debygol o fod yn effeithiol. Mae gan Chwaraeon Cymru wybodaeth am y ffactorau sy'n effeithio ar y niferoedd sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon, ond nid ydyw wedi archwilio mor fanwl yr achosion sydd wrth wraidd peidio cymryd rhan mewn chwaraeon – sydd yn aml yn faterion cymdeithasol mwy o faint a mwy cymhleth. Byddai canolbwyntio'n fwy ar ddeall achosion ehangach o beidio cymryd rhan mewn chwaraeon yn helpu i nodi pa bartneriaid y mae angen iddo weithio gyda nhw wrth gyflawni'r cam, a sut y gall helpu i gyfrannu at y gwaith o gyflawni amcanion partneriaid a chanlyniadau ehangach.
- Bydd ennill dealltwriaeth ddyfnach o'r rhesymau sylfaenol pam nad yw pobl yn cymryd rhan mewn chwaraeon yn helpu Chwaraeon Cymru i fabwysiadu dull system gyfan o fonitro a gwerthuso llwyddiant y 'cam' hwn, fel bod yr effeithiau ar sefydliadau partner hefyd yn cael eu cofnodi – er enghraifft, drwy gofnodi beichiau llai ar wasanaethau iechyd.

## Gall Chwaraeon Cymru ddangos cyswllt amlwg rhwng y 'cam', y weledigaeth ar gyfer chwaraeon yng Nghymru a'r nodau llesiant cenedlaethol, ond nid ydyw eto wedi archwilio'r cysylltiadau rhwng y 'cam' ac amcanion ei bartneriaid yn llawn

### Yr hyn y chwiliwyd amdano

28 Gwnaethom chwilio am dystiolaeth y rhoddir ystyriaeth i'r canlynol:

- sut gallai'r cam hwn gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol;
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn cael effaith ar amcanion llesiant a blaenoriaethau ehangach Chwaraeon Cymru; a
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn cael effaith ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.

29 Cafodd ein harchwiliad ei lywio hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'integreiddio' yr ydym wedi'u nodi a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[5]

### Yr hyn a ganfuwyd

30 Nodwyd y cryfderau canlynol:

[5] Gweler Atodiad 1

- Lansiwyd y weledigaeth ar gyfer chwaraeon yng Nghymru ym mis Gorffennaf 2018, ac mae'n nodi sut mae'r weledigaeth yn ymwneud â'r nodau llesiant cenedlaethol, a hynny mewn modd eglur a chynhwysfawr. Er enghraifft, mae Chwaraeon Cymru'n cyfeirio at 'Cymru o gymunedau cydlynol' drwy ymrwymo i weithio gyda sefydliadau eraill i greu llwybrau i mewn i chwaraeon ledled meysydd addysg, tai, gofal cymdeithasol, gwasanaethau ieuenctid, lleoliadau crefyddol a mwy.
- Wrth i'r weledigaeth ar gyfer Cymru ddatblygu, esblygodd y model chwaraeon cymunedol newydd i gyd-fynd â'r weledigaeth. Er enghraifft, mae'r 'cam' yn adlewyrchu pwyslais yn y weledigaeth fod angen dealltwriaeth well o anghenion chwaraeon a bylchau o ran y ddarpariaeth, ac y dylid cynnig cyfleoedd i bawb gymryd rhan mewn chwaraeon.
- Bwriad Chwaraeon Cymru yw y bydd iteriad nesaf ei strategaeth yn pennu canlyniadau sefydliadol (i helpu i gyflawni'r weledigaeth) a fydd hefyd yn amcanion llesiant iddynt.
- Mae gan Chwaraeon Cymru gysylltiadau da â phartneriaid allweddol sy'n galluogi iddynt drafod am gydweithio ac integreiddio amcanion o bosibl.
- Nododd staff Chwaraeon Cymru eu bod wedi gwella gwaith traws-sefydliadol ond gellid gwneud mwy.

31 Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

- Mewn system integredig, byddai dealltwriaeth glir o sut mae 'cam' yn cyfrannu at ymagwedd gyffredinol o ran gwella llesiant. Hyd yn hyn, nid yw Chwaraeon Cymru wedi archwilio sut mae'r model chwaraeon cymunedol newydd yn gysylltiedig ag amcanion llesiant sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus (gan gynnwys amcanion Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus).
- Mae Chwaraeon Cymru wedi ceisio adlewyrchu ffyrdd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth ddatblygu'r 'cam.' I sicrhau integreiddio wrth symud ymlaen, mae angen adlewyrchu'r pum ffordd o weithio wrth ariannu a chyflawni'r model chwaraeon cymunedol newydd yn y dyfodol – er enghraifft, drwy sicrhau bod penderfyniadau ariannu'n cael eu gwneud yn unol â'r pum ffordd o weithio.

## Mae Chwaraeon Cymru wedi dangos ymrwymiad i gydweithio wrth ddatblygu'r model chwaraeon cymunedol newydd, er bod y trefniadau ar gyfer rheoli a llywodraethu'r prosiect i gyflawni'r model yn eu camau datblygu cynnar o hyd

### Yr hyn y chwiliwyd amdano

32 Gwnaethom chwilio am dystiolaeth fod Chwaraeon Cymru:

- wedi ystyried sut y gallai weithio gydag eraill i gyflawni'r cam (i fodloni ei amcanion llesiant, neu i gynorthwyo corff arall i fodloni ei amcanion llesiant);
- yn cydweithio'n effeithiol i gyflawni'r cam; ac
- yn monitro ac adolygu p'un a yw'r bartneriaeth gydweithredol yn ei helpu neu'n helpu ei randdeiliaid i fodloni amcanion llesiant.

33 Cafodd ein harchwiliad ei lywio hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'cydweithio' yr ydym wedi'u nodi a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.

## Yr hyn a ganfuwyd

34 Nodwyd y cryfderau canlynol:

- Mae Chwaraeon Cymru yn gweithio gyda nifer o bartneriaid presennol a rhai newydd i ddatblygu'r 'cam'.
- Fel rhan o gynllun peilot gogledd Cymru, cynhaliodd Chwaraeon Cymru sesiynau ymgysylltu â phartneriaid posibl a sesiynau ymgynghori â sefydliadau i drafod y dull yn sgil hynny.
- O ganlyniad, mae Chwaraeon Cymru yn gweithio gyda phartneriaid newydd a allai ei helpu i gyflawni ei amcanion – er enghraifft, cymdeithasau tai.
- Datblygwyd y broses gaffael ar y cyd, ac roedd gofyn i'r partner dewisol ddangos dull cyflawni ar y cyd yn ystod y cam datgan diddordeb.
- Penodwyd partneriaeth o chwe awdurdod lleol, dwy brifysgol, y bwrdd iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Anabledd Chwaraeon Cymru, chwe chymdeithas dai a GwE fel y partner cyflenwi dewisol ar gyfer cynllun peilot gogledd Cymru (Partneriaeth Gydweithredol Chwaraeon Gogledd Cymru).
- Dywedodd partneriaid fod Chwaraeon Cymru wedi eu hannog i ystyried pwy arall yr oedd angen iddynt weithio gyda nhw i gyflawni'r cam.
- Yng nghynllun peilot gogledd Cymru, nododd partneriaid eu bod yn gallu cynnal sgyrsiau agored a gonest hyd yn oed wrth wynebu heriau yn ystod y broses.
- Ochr yn ochr â hyn, mae Chwaraeon Cymru wedi gweithio'n helaeth gyda Chyrff Llywodraethu Cenedlaethol i sicrhau eu bod yn gallu ymwneud â'r model chwaraeon cymunedol newydd a'i gefnogi.
- Mae Chwaraeon Cymru wedi rhoi trefniadau ar waith i werthuso elfen gydweithredol y 'cam'.
- Mae Chwaraeon Cymru wedi cynllunio ar gyfer cyfnod pontio fel rhan o'r broses gaffael. Bydd Chwaraeon Cymru'n cefnogi Partneriaeth Gydweithredol Chwaraeon Gogledd Cymru drwy ei blwyddyn gyntaf o weithredu nes ei bod yn gallu dangos hyfywedd cynaliadwy llawn.

35 Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

- Cafwyd anawsterau o ran rheoli'r prosiect i ddechrau yng nghynllun peilot gogledd Cymru, ac mae'r trefniadau llywodraethu'n cael eu hystyried o hyd.

Dyma rywbeth gwerthfawr i’w ddysgu o’r peilot y gellir ei ddefnyddio yn y camau nesaf wrth gyflwyno’r model chwaraeon cymunedol newydd.

- Bydd cynllun manwl ar gyfer y cyfnod pontio cychwynnol pan fydd yr Asiantaethau Chwaraeon Rhanbarthol yn cymryd yr awenau o ran cyflawni ac ariannu’r model chwaraeon cymunedol yn helpu i leihau’r tebygolrwydd o broblemau sefydlu. Bydd monitro’r model newydd i ddechrau yn helpu i nodi unrhyw broblemau yn ystod cam cynnar.
- Mae gan Chwaraeon Cymru gydberthynas dda â nifer o bartneriaid ac mae’n ceisio ehangu ei rwydwaith ymhellach. Byddai cydlynu gwaith â phartneriaid yn well yn helpu i sicrhau bod Chwaraeon Cymru yn manteisio i’r eithaf ar fuddion ei berthnasoedd sefydliadol.
- Nid yw Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi’u cynnwys yn sylweddol yn y gwaith o ddatblygu’r model chwaraeon cymunedol newydd hyd yn hyn. Byddai manteision posibl i Chwaraeon Cymru, Asiantaethau Chwaraeon Rhanbarthol a’r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eu hunain wrth gydweithio mwy ar y gwaith hwn.

## Mae Chwaraeon Cymru wedi cynnwys ystod gynhwysfawr o bartneriaid wrth ddatblygu’r model chwaraeon cymunedol newydd, ond prin yw’r cyfraniad uniongyrchol gan ddefnyddwyr gwasanaethau

### Yr hyn y chwiliwyd amdano

36 Gwnaethom chwilio am dystiolaeth fod Chwaraeon Cymru wedi gwneud y canlynol:

- nodi pwy y mae angen eu cynnwys wrth ddylunio a chyflawni’r cam;
- cynnwys rhanddeiliaid allweddol mewn modd effeithiol yn y gwaith o ddylunio a chyflawni’r cam;
- defnyddio’r canlyniadau o gyfraniadau i lywio’r gwaith o ddatblygu a chyflawni’r cam; a
- cheisio dysgu gwersi a gwella ei ymagwedd at gynnwys pobl.

37 Cafodd ein harchwiliad ei lywio hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer ‘cynnwys’ yr ydym wedi’u nodi a’u defnyddio fel rhan o’r archwiliad hwn.

### Yr hyn a ganfuwyd

38 Nodwyd y cryfderau canlynol:

- Roedd Chwaraeon Cymru wedi ystyried pwy roedd angen eu cynnwys yn ystod camau gwahanol wrth ddatblygu’r model chwaraeon cymunedol newydd.

- Roedd y gwahoddiad i ddigwyddiadau ymgysylltu'n nodi ei uchelgais ar gyfer yr amrywiaeth o randdeiliaid roedd am ymgysylltu â hwy. Daeth dros 200 o bobl i'r digwyddiadau hyn o amrywiaeth o sefydliadau a oedd â diddordeb mewn darparu chwaraeon cymunedol.
- Gwnaeth Chwaraeon Cymru hefyd annog ei bartneriaid presennol i ystyried pwy arall allai ychwanegu gwerth wrth ddatblygu'r 'cam'.
- Yng ngogledd Cymru, mae nifer o sefydliadau sefydlog a newydd yn gweithio gyda Chwaraeon Cymru drwy Bartneriaeth Gydweithredol Chwaraeon Gogledd Cymru.
- Nod cynnwys partneriaid newydd, megis cymdeithasau tai, yw cyrraedd poblogaethau lle mae llai o bobl yn cymryd rhan mewn chwaraeon ar hyn o bryd.
- Yn ychwanegol, cynhaliodd Chwaraeon Cymru 'sgwrs genedlaethol' a lywiodd y gwaith o ddatblygu'r weledigaeth ar gyfer chwaraeon yng Nghymru. Wrth i'r weledigaeth ddatblygu, esblygodd y model chwaraeon cymunedol newydd i gyd-fynd â'r blaenoriaethau a nodwyd yn y weledigaeth – er enghraifft, deall anghenion o ran chwaraeon a'r bylchau o ran y ddarpariaeth.

39 Nodwyd y maes canlynol i'w wella:

- Mae canllawiau statudol Llywodraeth Cymru ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol) yn nodi bod disgwyl i gyrff cyhoeddus gynnwys amrywiaeth o bobl a chymunedau yn y penderfyniadau a allai effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir iddyn nhw. Bydd ymgysylltu'n uniongyrchol â defnyddwyr gwasanaethau yn ystod y camau nesaf o gyflwyno a chyflawni'r prosiect yn cynnig mewnwelediad gwerthfawr – yn enwedig wrth asesu'r dystiolaeth o angen ac asesu bylchau yn y ddarpariaeth. Bydd hyn yn helpu i roi sicrwydd fod y ddarpariaeth newydd ar lawr gwlad yn adlewyrchu'r hyn y mae pobl ei eisiau mewn gwirionedd.

# Rhan Dau: Ymateb Chwaraeon Cymru

40 Yn dilyn diwedd ein gwaith maes, gwnaethom gyflwyno ein canfyddiadau i uwch-swyddogion Chwaraeon Cymru mewn gweithdy ym mis Mai 2019. Yn y gweithdy hwn, dechreuodd Chwaraeon Cymru ystyried ei ymateb i'n canfyddiadau, ac, o ganlyniad i drafodaethau yn y gweithdy a myfyrio pellach ar ein canfyddiadau, mae Chwaraeon Cymru wedi datblygu'r camau gweithredu canlynol.

## Hirdymor

- Byddwn yn parhau i ddefnyddio craffter i lywio'r gwaith o gyflawni ein strategaeth, gan gynnwys diweddaru ein dealltwriaeth o'r tueddiadau yn y dyfodol sy'n cael effaith ar nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon yng Nghymru.
- Byddwn yn cynnal rhagolygon i ystyried sut olwg fydd ar y sefydliad mewn 10, 15 a 25 mlynedd, a fydd yn ein helpu ni i gynllunio ar gyfer yr hirdymor.
- Byddwn yn parhau i ddefnyddio ymrwymiad pum mlynedd gyda'r potensial i'w ehangu am bum mlynedd arall (yn amodol ar berfformiad boddhaol) wrth gyflwyno'r model chwaraeon cymunedol ledled Cymru.

## Atal

- Byddwn yn sefydlu arsyllfa gweithgarwch corfforol mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni adnodd a fydd ar gael i'r cyhoedd sy'n cyflwyno tystiolaeth gyfredol am lefel y gweithgarwch corfforol yng Nghymru. Bydd yr adnodd yn seiliedig ar ddata cadarn, drwy borth hygyrch a rhyngweithiol ar y we.
- Byddwn yn parhau â'n partneriaeth â Llywodraeth Cymru ar Gronfa Iach ac Egnïol gwerth £5.4 miliwn, sy'n ceisio deall yn well y materion sy'n effeithio ar anweithgarwch corfforol i rai o'r grwpiau mwyaf agored i niwed yn y gymdeithas. Bydd rhan o'r gwaith hwn yn defnyddio fframwaith gwerthuso cyffredin a fydd yn cael ei werthuso'n allanol, a bydd yn meithrin ein gwybodaeth gyfunol o'r ffactorau sy'n effeithio ar anweithgarwch corfforol.
- Byddwn yn gwerthuso'r model chwaraeon cymunedol newydd o bryd i'w gilydd, yn unigol a thrwy Fframwaith Canlyniadau Chwaraeon Cymru.
- Byddwn yn parhau i gomisiynu astudiaethau megis yr Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad, a werthusodd effaith chwaraeon ar y system gyfan, gan fapio eu heffaith benodol ar ddulliau ataliol o ymdrin â phryderon iechyd.

## Integreiddio

- Byddwn yn cynnal ymarfer ehangach i fapio amcanion llesiant Chwaraeon Cymru i rai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd canlyniadau'r ymarfer hwn yn llywio'r gwaith comisiynu mewn perthynas â chyflwyno'r model chwaraeon cymunedol yn y dyfodol.

- Byddwn yn creu strategaeth adnoddau newydd sy'n cyd-fynd â'r egwyddorion buddsoddi yn strategaeth newydd Chwaraeon Cymru, gan ystyried yn glir y pum ffordd o weithio.

## Cydweithio

- Bydd canfyddiadau adolygiad o'r dull comisiynu i ddatblygu Chwaraeon Gogledd Cymru yn cael eu hymgorffori mewn proses ddiwygiedig ar gyfer ei gyflwyno ledled gweddill Cymru. Bydd gan y broses hefyd gam ychwanegol wedi'i ymgorffori a fydd yn rhoi amser a chefnogaeth i ddatblygu partneriaethau cydweithredol.
- Cynhaliwyd adolygiad o'r dull comsiynu a ddefnyddiwyd i ddatblygu Chwaraeon Gogledd Cymru ac mae canlyniadau'r adolygiad hwn wedi'u cynnwys mewn proses ddiwygiedig ar gyfer ei gyflwyno ledled gweddill Cymru. Bydd angen dangos elfennau amrwyiol, gan gynnwys yr angen i reoli'r prosiect a chael gwell eglurdeb o ran y trefniadau llywodaethu, drwy'r broses gomisiynu ddiwygiedig. Mae'r broses hefyd yn cynnwys cam ychwanegol wedi'i ymgorffori a fydd yn rhoi amser a chefnogaeth ychwanegol i ddatblygu partneriaethau cydweithredol.
- Fel rhan o'r broses gomisiynu, bydd angen i Chwaraeon Gogledd Cymru a phartneriaethau chwaraeon dilynol gyflwyno cynllun pontio manwl i ddangos eu bod yn ffyddiog eu bod yn gallu rheoli'r cam hwn o'r broses. Caiff y cynllun ei adolygu gan dîm a fydd yn cynnwys arbenigedd mewnol ac allanol, a bydd yn y pen draw yn ffurfio rhan o gyflwyniad yr achos busnes llawn. Cyflwynir yr achos busnes llawn i Fwrdd y Rhaglen Chwaraeon a Gweithgarwch Cymunedol i'w asesu a'i gymerawdyo cyn y dyfernir y contract.
- Yn ystod y cyfnod pontio, bydd Chwaraeon Cymru yn neilltuo digon o staff i sicrhau bod y partneriaethau'n cael eu cefnogi'n llawn, a hefyd yn rhoi adborth cynnar o'r hyn a ddysgwyd i lywio'r gwaith o ddatblygu a phontio partneriaethau yn y dyfodol.
- Er bod y gwaith trawsadrannol yn caniatáu ar gyfer y cydgysylltu hwn ar hyn o bryd, byddwn yn ffurfioli'r broses hon trwy ddatblygu system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) lle gellir mewngofnodi a dadansoddi'r holl ryngweithiadau â phartneriaid.
- Wrth gyflwyno'r model chwaraeon cymunedol newydd ledled gweddill Cymru, byddwn yn annog partneriaid arweiniol i ennyn diddordeb ar draws eu rhanbarth, gan gynnwys cysylltu â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, yn ystod y cam datgan diddordeb a'r cam gwahoddiad i gyflwyno datrysiadau amlinellol, wrth iddynt ddatblygu eu cynlluniau'n fwy manwl.

## Cynnwys

- Fel rhan o'r broses gomisiynu, bydd angen i bartneriaid ddangos bod eu cynlluniau'n seiliedig ar fewnwelediad a thystiolaeth ac felly bydd disgwyl iddynt ddangos sut y maent wedi ymgysylltu â'u cymuned yn y cam cynllunio ond hefyd yn barhaus i sicrhau bod eu cynlluniau'n parhau'n ddilys ar gyfer y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

# Atodiad 1

## Dangosyddion cadarnhaol o'r pum ffordd o weithio

### Arddangosyn 2: dangosyddion cadarnhaol o'r pum ffordd o weithio

Mae'r tabl isod yn nodi'r 'dangosyddion cadarnhaol' ar gyfer pob un o'r pum ffordd o weithio rydym wedi'u nodi. Nid ydym wedi defnyddio'r dangosyddion fel rhestr wirio. Dylid eu hystyried yn ddangosyddion. Gwnaethant ein helpu i gyrraedd casgliadau o ran y graddau y mae corff yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'r ffordd hirdymor o weithio yn llawn? |
| --- |
| • Ceir dealltwriaeth glir o ystyr 'hirdymor' yng nghyd-destun y Ddeddf.<br>• Mae wedi cynllunio'r cam i gyflawni'r amcan(ion) llesiant a chyfrannu at ei weledigaeth hirdymor.<br>• Mae wedi cynllunio'r cam i gyflawni buddion tymor byr a chanolig, sydd wedi'u cydbwyso â'r effaith yn yr hirdymor (o fewn cyd-destun y prosiect).<br>• Mae wedi cynllunio'r cam ar sail dealltwriaeth soffistigedig o anghenion a phwysau presennol ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddi tueddiadau yn y dyfodol.<br>• O ganlyniad i hyn, ceir dealltwriaeth gynhwysfawr o'r risgiau a'r cyfleoedd presennol ac yn y dyfodol.<br>• Mae adnoddau wedi'u dyrannu i sicrhau y cyflawnir buddion hirdymor yn ogystal â rhai tymor byr.<br>• Ceir pwyslais ar gyflwyno canlyniadau, a nodir cerrig milltir / camau datblygu pan gaiff canlyniadau eu cyflawni yn yr hirdymor.<br>• Mae'n agored i ffyrdd newydd o wneud pethau a allai helpu i gyflawni buddion yn y tymor hirach.<br>• Mae'n gwerthfawrogi gwybodaeth ac yn mynd ar drywydd dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'r ffordd ataliol o weithio yn llawn?** |
| • Mae'r corff yn ceisio deall yr achosion sydd wrth wraidd problemau er mwyn gallu mynd i'r afael â chylchoedd negyddol a heriau ar draws cenedlaethau.<br>• Mae'r corff yn gweld heriau o safbwynt y system gyfan, gan adnabod a gwerthfawrogi'r buddion hirdymor y gallant eu cyflwyno i bobl a lleoedd.<br>• Mae'r corff yn dyrannu adnoddau i gamau ataliol sy'n debygol o gyfrannu at well canlyniadau, a gwell defnydd o adnoddau yn yr hirdymor, hyd yn oed pan fo cyfyngiad posibl ar y gallu i ddiwallu rhai o'r anghenion tymor byr.<br>• Ceir trefniadau gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd sy'n cydnabod gwerth camau ataliol ac sy'n derbyn gostyngiadau tymor byr mewn perfformiad ac adnoddau wrth ganlyn gwelliannau disgwyliedig o ran canlyniadau a'r defnydd o adnoddau. |

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn defnyddio dull 'integredig'? |
| --- |
| • Mae unigolion ar bob lefel yn deall eu cyfraniad at gyflawni'r weledigaeth a'r amcanion llesiant.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn deall yr hyn y mae gwahanol rannau'r sefydliad yn ei wneud ac yn ceisio cyfleoedd yn rhagweithiol i weithio ar draws ffiniau sefydliadol. Caiff hyn ei efelychu yn eu gwaith â chyrff cyhoeddus eraill.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn cydnabod y dibyniaethau ar draws y sefydliad o ran cyflawni'r uchelgais a'r amcanion.<br>• Ceir diwylliant agored lle rhennir gwybodaeth.<br>• Ceir dealltwriaeth ddatblygedig o sut y mae'r amcanion llesiant a'r camau i'w cyflawni yn effeithio ar gyrff eraill y sector cyhoeddus.<br>• Mae unigolion yn gweithio'n rhagweithiol ar draws ffiniau sefydliadol i gyflawni'r cyfraniad mwyaf posibl ar draws y nodau llesiant ac i leihau'r effeithiau negyddol gymaint â phosibl.<br>• Mae trefniadau llywodraethu, strwythurau a phrosesau yn cefnogi hyn, ac ymddygiad hefyd. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cydweithredu'n effeithiol?** |
| • Mae'r corff yn canolbwyntio ar le, cymuned a chanlyniadau yn hytrach na ffiniau sefydliadol.<br>• Mae gan y corff ddealltwriaeth dda o amcanion partneriaid a'u cyfrifoldebau, sy'n helpu i lywio gweithgareddau cydweithredol.<br>• Mae gan y corff berthynas gadarnhaol ac aeddfed â rhanddeiliaid, a chaiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Mae'r corff yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi cyfraniadau'r holl bartneriaid.<br>• Mae'r corff yn ceisio sefydlu prosesau a ffyrdd o weithio cyfrannol, pan fo hynny'n briodol. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cynnwys pobl yn effeithiol?** |
| • Meddu ar ddealltwriaeth o bwy sydd angen bod yn gysylltiedig a pham.<br>• Myfyrio ar ba mor dda yw'r ddealltwriaeth o anghenion a heriau'r bobl hynny ar hyn o bryd.<br>• Gweithio mewn modd cydgynhyrchiol, gweithio gyda rhanddeiliaid i gynllunio a chyflawni.<br>• Ystyried barn rhanddeiliaid yn ffynhonnell wybodaeth hollbwysig a fydd yn helpu i gyflawni gwell canlyniadau.<br>• Sicrhau y cynrychiolir yr amrywiaeth lawn o randdeiliaid a'u bod yn gallu cymryd rhan.<br>• Bod â pherthynas aeddfed ac ymddiriedus â'i randdeiliaid, lle ceir deialog barhaus a chaiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall effaith eu cyfraniad.<br>• Ceisio adborth gan randdeiliaid allweddol a defnyddio hwn i helpu i ddysgu a gwella. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru